# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 19/09/2024 i'w hateb ar 24/09/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

1 OQ61568 **(e)**

Pa drafodaethau fydd y Prif Weinidog yn eu cael gyda Llywodraeth y DU a gweithgynhyrchwyr arfau o Gymru i sicrhau na chaiff arfau a gynhyrchwyd yng Nghymru eu defnyddio mewn troseddau rhyfel honedig?

**Buffy Williams** *Rhondda*

2 OQ61553 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol y gaeaf hwn?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

3 OQ61580 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y systemau cynllunio a thrwyddedau sy'n rheoleiddio'r diwydiant dofednod?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

4 OQ61566 **(e)**

Pa dargedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod ar gyfer lleihau rhestrau aros y GIG?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ61578 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith adfer ar eiddo yr effeithir yn andwyol arnynt gan gynllun Arbed yn ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ61582 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn seiliedig ar ymarfer gwrando'r Prif Weinidog?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

7 OQ61570 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi mewn perthynas â Wrecsam?

**Joel James** *Canol De Cymru*

8

## OQ61579 (e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith pensiynwyr cymwys nad ydynt yn gwneud cais am gredyd pensiwn ar dlodi ymhlith pobl hŷn yng Nghymru?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

9

## OQ61562 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10

## OQ61550 (e)

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r toriad i daliadau tanwydd gaeaf?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

11

## OQ61564 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar doriadau cyllidebol arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

12

## OQ61557 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am berfformiad GIG Cymru?